Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# The Potteries

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â The Potteries

Mae The Potteries yn ysgol arbennig annibynnol, ger Y Drenewydd ym Mhowys. Perchennog yr ysgol yw CareTech Community Services Ltd, sy'n gwmni cyfyngedig preifat, ac fe gaiff yr ysgol ei rheoli gan y cwmni hefyd. Mae'r perchennog yn berchen ar gartrefi plant ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r ysgol wedi'i chydleoli o fewn cartref plant.

Mae The Potteries yn ganolfan asesu; mae disgyblion yn mynychu rhaglen 26 wythnos yn yr ysgol cyn symud ymlaen i leoliadau hirdymor.

Mae 4 disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae eu hoedrannau'n amrywio rhwng 11 oed ac 16 oed. Mae gan bob un o'r disgyblion statws plentyn sy'n derbyn gofal (PDG) ac yn dod o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae gan ddau ddisgybl naill ai gynllun datblygu unigol neu gynllun addysg, iechyd a gofal. Y prif angen a nodwyd yw anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae 26 aelod o staff cymorth ar draws gofal ac addysg, sy'n cynnwys dau reolwr.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2012 ac ef yw'r unig athro yn yr ysgol.

Cynhaliwyd arolygiad diweddaraf yr ysgol ym mis Tachwedd 2017 a chynhaliwyd yr ymweliad monitro blynyddol diweddaraf ym mis Rhagfyr 2022.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

- Mae disgyblion sy'n mynychu The Potteries yn gwrtais ac yn barchus tuag atyn nhw eu hunain, disgyblion eraill a'u hamgylchedd. Maent yn ymgysylltu o'u gwirfodd â chryn dipyn o aeddfedrwydd mewn trafodaethau â chyd-ddisgyblion, staff ac ymwelwyr.
- Mae perthnasoedd rhwng pob un o'r disgyblion a phob un o'r staff yn nodwedd gadarnhaol sylweddol yn yr ysgol ac mae hyn yn helpu creu amgylchedd lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn saff.
- Mae disgyblion yn ymgysylltu'n llawn mewn sesiynau. Maent yn gweithio'n annibynnol a rhoddir cymorth sensitif ac amserol iddynt, pan fydd angen. Mae pob un o'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt tra byddant yn yr ysgol a'r diddordeb diffuant y mae staff yn ei ddangos ynddynt, nid yn unig fel disgyblion, ond fel unigolion.
- At ei gilydd, mae presenoldeb disgyblion gryn dipyn yn uwch nag ydyw yn eu lleoliadau ysgol blaenorol.

### Meysydd i'w datblygu

- Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o brofiadau cwricwlaidd gyda'r posibilrwydd i ddilyn rhaglenni achrededig mewn medrau annibynnol fel hylendid bwyd sylfaenol a choginio. Yn ychwanegol, achredir chwaraeon a gweithgareddau hamdden eraill, hefyd. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd i ddisgyblion gael eu hachredu mewn llythrennedd, rhifedd neu dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, er enghraifft.
- Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion yn briodol i godi eu huchelgeisiau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae gallu'r ysgol i gyflawni'r uchelgeisiau hynny'n ddigonol trwy'r cwricwlwm yn gyfyngedig. Er enghraifft, mae adnoddau a chapasiti cyfyngedig iawn i addysgu pynciau ar lefel TGAU.
- Nid yw'r defnydd systematig o wybodaeth asesu i lywio cynllunio ac olrhain cynnydd disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

## Argymhellion

### Dylai'r ysgol:

A1 Ymestyn y defnydd o achredu ystyrlon i gynnwys llythrennedd, rhifedd a TGCh

A2 Parhau i ddatblygu ymagwedd systematig at ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael am ddisgyblion i gynllunio'n strategol ar gyfer datblygu medrau yn raddol ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella darpariaeth, gan gynnwys staffio, er mwyn i ddisgyblion allu astudio amrywiaeth o gyrsiau ar lefel TGAU

## Cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

### A1 Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

Adeg yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, ni allai'r ysgol ddarparu tystiolaeth o'r gwiriadau cyn cyflogaeth ar gyfer y pennaeth. Mae'r wybodaeth angenrheidiol wedi cael ei darparu erbyn hyn.

### A2 Gwella'r cynllunio strategol a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynyddol medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o asesiadau i ddarparu gwybodaeth am unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod gan ddisgyblion a sefydlu gwaelodlin yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd systematig o'r wybodaeth hon i lywio cynllunio ac olrhain cynnydd disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

### A3 Sicrhau bod gan staff cymorth fedrau a hyfforddiant addas i ddiwallu anghenion dysgu'r disgyblion

Ers yr ymweliad diwethaf, mae ychydig llai na chwarter y staff wedi cwblhau cymhwyster lefel 3 mewn cefnogi addysgu a dysgu. Mae cynlluniau i holl staff presennol y cartref plant gwblhau'r hyfforddiant hwn. Nid yw'r dyhead i'r holl staff newydd a benodir yn y cartref plant gwblhau hyfforddiant o'r fath wedi cael ei fabwysiadu yn bolisi'r cwmni.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 1.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/05/2024